MAWRTH 2023

# CYLCHLYTHYR ADDYSG, DIWYLLIANT A DATBLYGU SEFYDLIADOL

## EICH DIWEDDARIAD MISOL AR DDYSGU A DATBLYGU

ECOD

## Yn y rhifyn hwn...

01 Mae gan ECOD aelod newydd o'r tîm!
02 Sgiliau Cyfathrebu Uwch Arweinwyr, Rheolwyr a Goruchwylwyr
03 Recriwtio Yn Seiliedig Ar Werthoedd / Diwrnod Cyflwyno NMPP
04 Arfarniad Yn Seiliedig Ar Werthoedd
05 Diwrnod Datblygu Tiwtoriaeth Ryngbroffesiynol
06 Rhaglen Ymsefydlu HCSW
07 Tîm Hwyluswyr Addysg Ymarfer
09 Cyn Ymddeol
10 Gweithdai Lles Y Gweithwyr
11 Diploma ar gyfer Ymarferwyr Dysgu Digidol
12 Cymorth Costau Byw a Lles Ariannol i Staff
13 Cyrsiau ILM Coleg Caerdydd a'r Fro wedi'u hariannu
14 Diweddariadau Allweddol
15 Gwybodaeth Allweddol
16 Prif Fanylion Cyswllt ECOD



# MAE GAN ECOD AELOD NEWYDD O'R TÎM!

## ANDREW TUCKER

Hello!
Helo! Fy enw i yw Andrew Tucker, fi yw'r Rheolwr Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol newydd yn nhîm ECOD.

## MANYLION CYSWLLT

andrew.tucker@wales.nhs.uk

@andrew15791996

MS Teams - Andrew Tucker

## YCHYDIG AMDANAF I...

Ymunais â theulu CAF ar 9 Ionawr ac roedd yn amlwg o'r dechrau fy mod i'n rhan o dîm gwych gydag agenda gyffrous. Mae llawer iawn o waith rhagorol yn digwydd, ond eto cymaint mwy y gallwn ei wneud i gefnogi ein pobl!
Yn broffesiynol, treuliais 13 mlynedd gydag Ambiwlans Cymru. Dechreuais fel swyddog galwadau 999, cyn symud ymlaen i fod yn oruchwyliwr swyddog galwadau, rheolwr sicrhau ansawdd ac yn olaf, Rheolwr Dysgu a Datblygu y Canolfannau Cyswllt Clinigol. Cyn hynny, roeddwn yn Swyddog Heddlu gwirfoddol. Yn academaidd, mae gen i radd meistr mewn arweinyddiaeth.

## FELLY BETH YDW I'N EI WNEUD?

Rwy'n bennaf gyfrifol am ein haddysg arweinyddiaeth a rheolaeth, yn benodol ein rhaglenni Camau Cyntaf i Reoli, Sgiliau Rheoli Hanfodol a Collabor8. Rwy'n gwerthuso'r hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'r bwriad o greu pasbort rheolwyr newydd sy'n cwmpasu llwybr achrededig a heb ei achredu. Y syniad yw y bydd gennym addysg ar gael i'ch cefnogi o fod yn ddechreuwr i fod yn uwch arweinydd. Cadwch lygad allan!

## DEWCH I DDWEUD HELO!

Rwy'n angerddol am arweinyddiaeth, rheolaeth ac addysg. Byddwn wrth fy modd yn cysylltu ag unrhyw un, i glywed unrhyw syniadau neu adborth, unrhyw beth sy'n ymwneud â'r addysg rydym yn ei darparu (neu'r hyn rydych chi'n teimlo y dylem ei ddarparu). Mae eich mewnbwn a'ch adborth yn hanfodol i helpu ECOD i ddarparu rhaglenni sydd wir yn gweithio i chi. Dewch i ddweud helo!

# SGILIAU CYFATHREBU UWCH ARWEINWYR, RHEOLWYR A GORUCHWYLWYR

## DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae’r gweithdy undydd hwn wedi’i gynllunio i helpu pobl sy’n gweithio mewn rolau arwain, rheoli a goruchwylio. Byddant yn datblygu sgiliau cyfathrebu gwell, a fydd yn galluogi cyfathrebu gydag urddas a pharch yn ystod sgyrsiau anodd gyda chleifion, cydweithwyr a’r timau maent yn eu harwain a’u rheoli. Prif ffocws y diwrnod hwn yw rheoli staff ond mae’r wybodaeth a’r sgiliau y byddwch yn eu dysgu yn gallu cael eu trosglwyddo i ofal cleifion.

## AMCANION Y CWRS

Erbyn diwedd y cwrs hwn, bydd yr ymgeisydd yn gallu:

- Cynnal gwerthusiad beirniadol o fodelau cyfathrebu ac urddas sy’n hwyluso cyfathrebu effeithiol
- Archwilio egwyddorion cyfathrebu pendant
- Gwerthuso a chymhwyso pecyn cymorth o wybodaeth, modelau a sgiliau cyfathrebu
- Myfyrio ar effaith eich ymddygiad / arddull cyfathrebu eich hun ar bobl eraill a thrafod sut y gall yr hunanymwybyddiaeth hon ddylanwadu’n gadarnhaol ar eraill a hyrwyddo cyfathrebu urddasol yn y gweithle
- Datblygu sgiliau i reoli’ch cyflwr emosiynol ac ymddygiad eich hun yn ystod sgyrsiau heriol
- Meithrin perthynas effeithiol mewn sefyllfaoedd anodd
- ·Trafod sut i reoli sgyrsiau anodd sy’n gysylltiedig â chymhwyso polisi Adnoddau Dynol

## DYDDIADAU AR GAEL 2023

25 Ebrill
11 Mai
27 Mehefin
25 Gorffennaf
14 Awst



Gellir trefnu lle trwy hunan-gofrestru ar ESR.

# RECRIWTIO YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD

Mae Recriwtio yn Seiliedig ar Werthoedd (VBR) yn ddull o ddenu a recriwtio myfyrwyr, hyfforddeion a gweithwyr ar y sail bod eu gwerthoedd a'u hymddygiad yn cyd-fynd â rhai'r sefydliad. Nod y sesiwn hon yw rhoi'r sgiliau a'r offer i bob rheolwr recriwtio i gynnal proses recriwtio yn seiliedig ar werthoedd.

**Y GYNULLEIDFA DARGED:**
Pob rheolwr sy'n recriwtio o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**AMCANION:**

- Deall sut y caiff gwerthoedd eu defnyddio ar draws pob agwedd ar y broses recriwtio
- Sut a beth i'w baratoi ar gyfer recriwtio yn seiliedig ar werthoedd, gan ddefnyddio proffiliau llwyddiant
- Technegau cyfweld sylfaenol
- Sut i gynnal proses gyfweld yn seiliedig ar werthoedd a dogfennaeth

**SESIYNAU SYDD AR GAEL:**

| | | |
|---|---|---|
| 20-Ebrill-2023 | 11:00 - 12:30 | MS Teams |
| 7-Meh-2023 | 14:00 - 15:30 | MS Teams |
| 12-Gorff-2023 | 14:00 - 15:30 | MS Teams |
| 20-Medi-2023 | 11:00 - 12:30 | MS Teams |

**SUT I DREFNU LLE:**
I drefnu lle ar un o'r sesiynau hyn, gwnewch hynny drwy hunangofrestru ar ESR - cliciwch yma i fynd i'r cwrs

# DIWRNOD CYFLWYNO NMPP

Diwrnod astudio undydd dan arweiniad sy'n cynnwys croeso i'r BIP a'r rhaglen diwtoriaeth, gweithdy meithrin eich gwytnwch a chyflwyniad i wasanaethau lles.

| DYDDIAD: | AMSER: | LLEOLIAD: |
|---|---|---|
| 19 Ebrill | 09.00 - 16.30 | ECOD, 2il Lawr, Adeilad Cochrane |
| 11 Mai | 09.00 - 16.30 | ECOD, 2il Lawr, Adeilad Cochrane |
| 12 Mehefin | 09.00 - 16.30 | ECOD, 2il Lawr, Adeilad Cochrane |

Trefnwch eich lle drwy hunan-gofrestru ar ESR.

# ARFARNIAD YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD

## A YDYCH CHI WEDI CAEL EICH ARFARNIAD YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD (VBA)?

ich cyfle CHI ydyw i gael sgwrs agored, adeiladol gyda'ch rheolwr / arfarnwr... Gallwch chi drafod gyda'ch gilydd ble rydych chi nawr yn eich rôl, ble rydych chi eisiau bod a sut i gael eich cefnogi i gyrraedd yno.

## DYDDIADAU HYFFORDDI SYDD AR GAEL:

**DRWY TEAMS:**

14 Mawrth 2023
10:00 - 12:00

14 Ebrill 2023
10:00 - 12:00

**TREFNWCH SESIWN DRWY HUNANGOFRESTRU AR ESR YMA**

### Y CYFARFOD VBA;

Dim ond un rhan o drafodaethau parhaus am eich datblygiad yw hwn... Mae angen i hyn ddigwydd NAWR gyda'ch rheolwr / arfarnwr felly sicrhewch eich bod yn trefnu dyddiad.

### ARATOI AR GYFER Y CYFARFOD VBA

- Cwblhewch yr asesiad
- Casglwch ychydig o adborth
- Cwblhewch eich cyflawniadau yn erbyn amcanion y llynedd

### DATBLYGIAD CYFLOG - Gwybodaeth Bwysig

- Gweithredu o fis Hydref 2022
- Bydd angen i chi wybod a oes disgwyl i chi gael cynyddran sy'n effeithio ar gyflog (cam cyflog) ar ôl y dyddiad hwn (na fydd yn digwydd bob blwyddyn oherwydd bandiau cyflog cywasgedig.)
- Os yw'n effeithio ar gyflog, bydd angen i chi gael cyfarfod datblygiad cyflog cyn dyddiad eich cynyddran (cam cyflog) i gytuno ar eich dyfarniad cyflog gyda'ch rheolwr.
- SYLWCH - un elfen bwysig o gael eich dyfarniad cyflog yw eich bod wedi cael VBA a'i fod wedi'i gofnodi ar ESR.

**Cliciwch yma** neu sganiwch y cod QR am adnoddau allweddol

Os ydych eisoes wedi mynychu hyfforddiant ac yr hoffech gael sesiwn ddiweddaru, cysylltwch â CAV.ECOD@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# Diwrnod Datblygu Tiwtoriaeth Ryngbroffesiynol

Ar agor i nyrsys, bydwragedd, ODPs, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a meddygon sydd newydd gofrestru yn ystod 12 mis cyntaf eu cyfnod tiwtoriaeth. Mae hwn yn gyfle cyffrous i ddatblygu sgiliau arwain, rheoli amser a datrys problemau gydag Ysbyty Maes (Cymru) 203 y Fyddin wrth Gefn.



## Trosolwg

Yn ystod y dydd, byddwch yn cael eich rhoi mewn i dîm lle byddwch yn ymgymryd â heriau ymarferol byr ac ymarfer cynllunio damcaniaethol. Mae'r heriau ymarferol wedi'u cynllunio i annog sgiliau arwain, datrys problemau a rheoli amser. Mae'r ymarfer cynllunio yn dasg datrys problem lle mae'r tîm yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ateb cyn cyflwyno i'r grŵp. Nid oes rhaid i chi fod yn ffit yn gorfforol i gymryd rhan gan fod y diwrnod wedi'i gynllunio ar gyfer pobl o bob gallu.

## Dyddiadau sydd ar gael

- Dydd Mercher 9.15am i 3pm, 17 Mai 2023
  Dydd Iau 9.15am i 3pm, 15 Mehefin 2023
- Dydd Mercher 9.15am i 3pm, 5 Gorffennaf 2023
  Dydd Iau 9.15am i 3pm, 27 Gorffennaf 2023
- ·Dydd Mercher 9.15am i 3pm, 9 Awst 2023
  Dydd Iau 9.15am i 3pm, 24 Awst 2023

### Lleoliad

Ysbyty Maes (Cymru) 203 Canolfan y Fyddin Wrth Gefn, Gogledd Llandaf, Caerdydd, CF14 2HX

### Beth i ddod gyda chi

Dewch â chinio a menig garddio neu chwaraeon ar gyfer trin rhai o offer y tasgau

### Beth i'w wisgo

Dillad gwrth-ddŵr a dillad awyr agored gyda llewys a throwsus hir. Esgidiau chwaraeon / cerdded cadarn

### Trefnwch eich lle nawr!

hunan-gofrestru drwy ESR

CAV.ECOD@wales.nhs.uk

029 2184 7834

# RHAGLEN YMSEFYDLU HCSW

Ym mis Hydref 2022, cafodd ein rhaglen ymsefydlu HCSW, Ymrwymiad i Ofal (C2C), ei gweddnewid.
Mae bellach yn cael ei chynnal dros 5 diwrnod, gan gynnwys 3 diwrnod addysgu a 2 ddiwrnod efelychu sgiliau clinigol.

Nid oes llawer o'n HCSWs newydd wedi gweithio mewn lleoliad acíwt o'r blaen ac mae gofalu yn hollol newydd i rai. Nod y diwrnodau sgiliau yw dod â theori yn fyw drwy ddysgu yn seiliedig ar senario mewn grwpiau bach a rhoi rhagflas i'r HCSWs newydd o sut beth yw gweithio ym maes gofal iechyd. Er y bydd angen hyfforddiant a chymorth pellach arnynt ar y ward o hyd, yn enwedig yn ystod eu cyfnod ychwanegol, nod y rhaglen C2C newydd yw paratoi HCSWs yn well ar gyfer eu rôl.

Yn 2022 gwnaethom helpu 608 o HCSWs i ymsefydlu yn y BIP. Ers dechrau'r cwrs 5 diwrnod newydd rydym wedi rhoi 126 o HCSWs drwy'r rhaglen.






Mae hyfforddiant ymsefydlu HCSW yn gwrs Cymru Gyfan gorfodol sy'n ffurfio rhan gyntaf Fframwaith Datblygu HCSW, a sefydlwyd yn 2016. Mae'r cwrs ymsefydlu C2C wedi'i achredu gan Agored Cymru ac mae angen i bob HCSW newydd fynychu.

I drefnu lle ar C2C, cysylltwch â cav.ecod@wales.nhs.uk

# TÎM HWYLUSWYR ADDYSG YMARFER

Rydym yn falch iawn o fod wedi croesawu Kate Shinkwin a Clare Weatherall i'r tîm hwyluswyr addysg ymarfer (PEF) yn ddiweddar. Kate yw'r hwylusydd ymarfer arweiniol ar gyfer bydwreigiaeth a Clare fydd y PEF sy'n ymdrin ag iechyd plant. Mae Kate a Clare yn aseswyr ymarfer/goruchwylwyr ymarfer profiadol, felly ynghyd â gweddill tîm PEF byddant yn gallu darparu hyfforddiant SSSA a helpu gydag unrhyw ymholiadau myfyriwr/lleoliad sydd gennych.

## SAFONAU AR GYFER GORUCHWYLIO AC ASESU MYFYRWYR (SSSA)

Mae 2.5 mlynedd wedi bod bellach ers lansio 'Nyrsys y Dyfodol', y cwricwlwm nyrsio cyn cofrestru yn 2020 ac yn 2022 lansiwyd Cwricwlwm 'Bydwragedd y Dyfodol'. Mae tîm PEF ECOD wedi bod yn gyfrifol am sicrhau bod y BIP yn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr. Er mwyn galluogi hyn, darparwyd hyfforddiant pontio i 'fentoriaid' nyrsio a bydwreigiaeth y BIP dros y 3 blynedd diwethaf. Yn ystod y pandemig, cafodd 100% o 'fentoriaid' nyrsio a bydwreigiaeth eu hyfforddi'n anffurfiol. Ers hynny, mae'r tîm PEF wedi darparu hyfforddiant pontio ffurfiol i 2,187 o aelodau staff a oedd yn 'fentoriaid' nyrsio blaenorol a 112 o 'fentoriaid' bydwreigiaeth blaenorol. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r hyfforddiant wedi datblygu.

**Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl staff nyrsio a bydwreigiaeth sydd wedi mynychu'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod heriol hwn.**

## HYFFORDDIANT SSSA (NYRSIO)

| 'Mentoriaid' nyrsio sy'n gallu gweithredu fel PA a PS | Hyfforddiant pontio? | Goruchwylwyr ymarfer newydd wedi'u hyfforddi? | Mynychu hyfforddiant asesydd ymarfer 'atodol'? |
|---|---|---|---|
| 1520 | 1350 | 995 | 237 |

## HYFFORDDIANT SSSA (BYDWREIGIAETH)

| 'Mentoriaid' bydwreigiaeth sy'n gallu gweithredu fel PA a PS | Hyfforddiant pontio? | Goruchwylwyr ymarfer newydd wedi'u hyfforddi? | Mynychu hyfforddiant asesydd ymarfer 'atodol'? |
|---|---|---|---|
| 112 | 100% | 239 | 167 |

Noder: Mae myfyrwyr nyrsio a myfyrwyr bydwreigiaeth yn cwblhau hyfforddiant PS yn eu trydedd flwyddyn yn y Brifysgol, felly pan fyddant wedi cwblhau eu cyfnod tiwtoriaeth a bod eich rheolwr ward/arweinydd tîm yn teimlo eu bod yn barod, gallant weithredu fel PS i fyfyrwyr gydag arweiniad PA profiadol. Nid oes amser penodol y dylai person weithredu fel PS cyn symud ymlaen i fod yn PA (fel safonau blaenorol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth). Bydd angen i'ch rheolwr ward/arweinydd tîm a'ch PA arweiniol gynnal trafodaethau ynghylch pryd y byddwch yn teimlo y gall y person hwnnw symud ymlaen a mynychu hyfforddiant PA 'atodol'.

Mae diweddariadau bob amser ar gael gan y tîm PEF hyd yn oed os ydych wedi cael hyfforddiant ffurfiol. Gallwn ddarparu'r rhain mewn amrywiaeth o ffyrdd hyblyg sy'n addas ar gyfer eich anghenion chi a'r gwasanaeth - gan gynnwys ystafelloedd dosbarth Google, sesiynau wyneb yn wyneb pwrpasol, mynychu diwrnodau tîm ac ar Microsoft Teams. Cysylltwch â ni i drafod unrhyw ofynion hyfforddi ar y rhifau isod.

## SGILIAU CLINIGOL

Ym mis Hydref 2022 cyhoeddwyd briff dysgu ymarfer a oedd yn atal myfyrwyr nyrsio rhag ymgymryd â'r 4 sgil risg uchel a restrir isod dros dro. Rydym bellach wedi cael sicrwydd gan ein Prifysgolion partner y bydd myfyrwyr yn cael asesiadau model (manikin) yn ystod efelychiad cyn eu hymarfer gyda'n cleifion - felly mae'r ataliad dros dro hwn wedi'i godi. Mae hyn yn unol â fframwaith dysgu ymarfer Cymru Gyfan. Y pedwar sgil yw:

✔ Cathetreiddio
✔ Tynnu gwaed
✔Gosod canwla
✔ Mewnosod tiwb NG

Cyhoeddwyd briff diogelwch yn ddiweddar a anfonwyd ymlaen at bob maes a oedd yn cynnwys manylion am godi'r cyfyngiad ar y 4 sgil risg uwch. **Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.**

## MANYLION CYSWLLT

Fel bob amser, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm Hwyluswyr Addysg Ymarfer gydag unrhyw bryderon neu ymholiadau ynghylch goruchwylio ac asesu myfyrwyr ar y llinellau HUB PEF isod-

- 02921 842053 (UHW)
- 02921 825595 (UHL)

# Cyn Ymddeol

**Ydych chi'n ystyried ymddeol, neu oes gennych aelod o staff yn agosáu at oedran ymddeol?**




**Oeddech chi'n gwybod bod Caerdydd a'r Fro yn hwyluso cwrs cyn ymddeol, sy'n cael ei gynnal gan Affinity Connects?**

## Trefnwch le ar gwrs heddi

**'Helpu'r rhai yn y gweithle i wella eu dyfodol yn ariannol.'**

Ar-lein (Teams)

06-Mar-2023 - 1:00pm – 3:30pm



Yn yr Ystafell Ddosbarth (Adeilad Cochrane)

17-Chwef-2023 - 9:30am — 3:30pm
20-Ebrill-2023 - 9:30am — 3:30pm
03-Mai-2023 - 9:30am — 3:30pm
15-Meh-2023 - 9.30am — 3.30pm
21-Gorff-2023 - 9:30am — 3:30pm
29-Awst-2023 - 9.30am — 3.30pm
22-Medi-2023 - 9:30am — 3:30pm
19-Hyd-2023 - 9:30am — 3:30pm
03-Tach-2023 - 9:30am — 3:30pm
07-Rhag-2023 - 9:30am — 3:30pm

*'Addysg ariannol a gwasanaethau cynghori ariannol rheoledig, wedi'u cynllunio'n benodol i helpu'r gweithlu cyfan i wneud penderfyniadau gwybodus am eu harian.'*

I drefnu lle, e-bostiwch chloe.thompson2@wales.nhs.uk gyda'ch e-bost dewisol a'ch dyddiad dewisol.

# GWEITHDAI LLES Y GWEITHWYR

## MAWRTH

**Gweithdy Ymwybyddiaeth Menopos**
Dydd Llun 6 - 13:00 - 15:00
Trefnwch le yma: Ar-lein

**Gweithdy Cyflwyniad i Bendantrwydd**
Dydd Mawrth 7 - 13:00 - 15:00
Trefnwch le yma: Ar-lein

**Gweithdy Cwsg**
Dydd Iau 16 - 9:30 - 10:30
Trefnwch le yma: Ar-lein

**Grŵp Cymorth gan Gymheiriaid COVID Hir**
Dydd Llun 20 - 13:00 - 14:00
Trefnwch le yma: Ar-lein

**Gweithdy Asesu Risg Straen i Reolwyr**
Dydd Gwener 24 - 13:00 - 15:00
Trefnwch le yma: Ar-lein

**Caffi Menopos**
Dydd Llun 27 - 13:00 - 14:00
Trefnwch le yma: Ar-lein

PHWS

Bydd pob sesiwn yn cael ei chynnal drwy Microsoft Teams. Bydd manylion ymuno yn cael eu hanfon drwy e-bost cyn y digwyddiad a byddant hefyd ar gael ar dudalen Eventbrite.

**Yn cyflwyno................................newydd**

## Prentisiaeth Lefel 3

# Diploma ar gyfer Ymarferwyr Dysgu Digidol

Nod y brentisiaeth Ymarferwyr Dysgu Digidol yw darparu'r wybodaeth a'r sgiliau i alluogi'r dysgwr i greu cynnwys digidol effeithiol a chynhwysol ar gyfer dysgu a datblygu.

### Mae'r cymhwyster wedi'i anelu at ystod o ddysgwyr, heb fod yn gyfyngedig i:

- Athrawon
- Tiwtoriaid
- Darlithwyr
- Rheolwyr Datblygu
- Swyddogion Adnoddau Dynol
- Aseswyr
- Hyfforddwyr
- Cynorthwywyr Addysgu

### Hyd yr amser i'w gwblhau

Byddwn yn teilwra eich rhaglenni dysgu i gyd-fynd â'ch anghenion, fel bod profiad pob dysgwr yn unigryw. Er y bydd anghenion y dysgwr yn wahanol, **yr amser a argymhellir i gwblhau'r rhaglen hon yw 18 mis.**

Cliciwch yma i weld llyfryn y prif gymhwyster

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Bendle, Cydlynydd Prentisiaethau ac Ehangu Mynediad ar emma.bendle@wales.nhs.uk

# CYMORTH COSTAU BYW A LLES ARIANNOL I STAFF

Gyda'r cynnydd mewn Costau Byw, mae BIP Caerdydd a'r Fro yn awyddus i gefnogi staff drwy'r cyfnod anodd hwn, a hyd yma maent wedi cynnal cyfres o sioeau teithiol 'Pobl a Diwylliant' ar draws sawl safle gyda chefnogaeth gan staff, buddion staff, y gwasanaeth caplaniaeth, y Gwasanaeth Arian
a Phensiynau, Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru, EDI, Undeb Credyd Caerdydd, Iechyd y Cyhoedd ac ECOD.



Roedd y sioeau teithiol yn llwyddiannus iawn gyda dros 400 o staff yn ymweld â'r digwyddiad naill ai i ddarllen a/neu gasglu adnoddau a/neu i wneud ymholiadau am gyllid a chostau byw. Roedd staff hefyd yn gallu cystadlu mewn raffl i ennill un o ddeg hamper ffrwythau a llysiau a roddwyd gan 'Awesome Wales' a oedd yn cael eu dosbarthu yn ystod yr wythnos a dyma luniau o rai o'r enillwyr hapus.








Os gwnaethoch chi golli'r sioe deithiol, peidiwch â phoeni - **cliciwch yma** i weld tudalennau Sharepoint Cymorth Costau Byw a Lles Ariannol i Staff lle gallwch gael gafael ar gyfoeth o wybodaeth a dolenni i adnoddau allweddol.

Mae BIP Caerdydd a'r Fro hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth **'Helpwr Arian'** sydd wedi lansio canllaw byr, blogiau, adnoddau ac offer ymarferol i gefnogi pobl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Popeth y mae angen i chi ei wybod am gymorth costau byw'r llywodraeth, biliau bwyd ac ati
- Datblygu eich cynlluniwr cyllideb eich hun fel eich bod yn gwybod yn union ble mae eich arian yn cael ei wario, a faint rydych yn ei ennill
- Cymorth i bobl roi trefn ar filiau a'u blaenoriaethu
- Canllawiau i helpu incwm gwasgedig i fynd ymhellach, gan gynnwys sut i olrhain eich gwariant, torri'n ôl ar gostau a chyfeirio at gymorth ychwanegol, yn ogystal ag arweiniad gydag unrhyw ddyledion

Cliciwch ar y dolenni isod i gael rhagor o wybodaeth:

- **Money Helper**
- **Stop Loan Sharks Wales**
- **Citizens Advice**
- **Welsh Government:** 'Get help with the cost of living' specifically looking at benefits, housing, financial help, health and wellbeing

## CYRSIAU ILM COLEG CAERDYDD A'R FRO WEDI'U HARIANNU

Mae gennym gyrsiau ILM byr wedi'u hariannu'n llawn ar gael i reolwyr llinell, dirprwy reolwyr ac Arweinwyr Tîm/Goruchwylwyr ar draws y Sefydliad sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau rheoli ac arwain.

Disgwylir iddynt gael eu cyflwyno gan Goleg Caerdydd a'r Fro yn ystod mis Mawrth, Mai a Mehefin 2023.

Nid yw'r cyrsiau ar lefel Diploma prentisiaeth lawn, ond dylai cynnwys y cyrsiau fod yn ddefnyddiol o hyd ar gyfer naill ai Arweinydd Tîm neu i ddatblygu rheolaeth. Mae'r cwrs ILM L2 wedi'i anelu at lefel Arweinydd Tîm/Goruchwyliwr.

| **CWRS** | |
|---|---|
| ILM Lefel 3 - Hyfforddi Effeithiol | 14/3/2023 |
| ILM Lefel 3 - Y Darpar Arweinydd | 21/3/2023 |
| ILM Lefel 5 - Yr Arweinydd Effeithiol | 10/5/202 |
| ILM Lefel 2 - Sgiliau Tîm ac Arweinyddiaeth | 10/5/2023 |

Byddai'r cwrs ILM Lefel 5 yn ddefnyddiol i staff mwy profiadol neu staff Band 7 ac uwch ar draws y BIP.

Os hoffech ystyried archwilio cynnwys y cwrs, cael cymeradwyaeth gan reolwr llinell, ac ymrwymo i fynychu ychydig o ddiwrnodau astudio, cysylltwch â Suzanne Gardner, Gweinyddwr Prentisiaethau ac Ehangu Mynediad

**E-bost:** suzanne.gardner@wales.nhs.uk
**Ffôn:** 029 21 8 47834

# DIWEDDARIADAU ALLWEDDOL

## PECYNNAU E-DDYSGU NEWYDD

Pecynnau e-ddysgu newydd yn dod yn fuan! Cyfle perffaith i ddiweddaru eich cydymffurfiaeth.

## SEFYDLU CORFFORAETHOL

Os hoffech gael gwybod pan fydd dyddiadau newydd ar gael ar gyfer Sefydlu Corfforaethol, cysylltwch â Chloe Thompson i gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

SYLWCH: rhaid cynnwys cyfeiriad e-bost ar gyfer yr aelod o staff wrth drefnu lle a bydd angen creu cofnod ar ei gyfer ar ESR.

**chloe.thompson2@wales.nhs.uk**

## DIOGELU E-DDYSGU

E-DDYSGU DIOGELU - Os nad yw'r e-Ddysgu Diogelu lefel 1 yn gweithio, cofrestrwch ar gyfer Diogelu Pobl. Bydd hyn yn ddigon ar gyfer Diogelu Oedolion a Phlant lefel 1.

## OSCE

Cyflawniad gwych! Yn ddiweddar, buom yn dathlu bod ein 440 Nyrs Rhyngwladol yn llwyddiannus wrth basio ei OSCE ac yn ymuno â'r BIP fel nyrs gofrestredig.

## Diweddariad NMPP

Cynhelir adolygiad o'r rhaglen eleni. Os hoffech gymryd rhan a helpu i lunio'r rhaglen diwtoriaeth, cysylltwch â Ffion Jenkins (Arweinydd NMPP).

**Ffion.Jenkins2@wales.nhs.uk**

# GWYBODAETH ALLWEDDOL

Rydym bellach yn defnyddio ActionPoint i reoli ymholiadau. Gallwch gyflwyno ymholiadau i ni drwy ActionPoint drwy e-bostio'n uniongyrchol i CAV.ECOD@wales.nhs.uk neu drwy ddefnyddio ActionPoint UltraLite

I drefnu lleoedd ar y cyrsiau mewngofnodwch ar ESR a dilynwch y cyfarwyddiadau

Os hoffech danysgrifio i'r cylchlythyr hwn i'ch cyfeiriad e-bost personol, cofrestrwch yma neu sganiwch y cod QR isod

I drefnu lleoedd yn ESR gan ddefnyddio unrhyw un o'r dolenni yn y cylchlythyr hwn - pan ofynnir i chi - dewiswch 'Employee Self Service; i drefnu lle ar gyfer eich hun neu 'Manager Self Service' i drefnu lle ar gyfer aelodau eich tîm. Os codir y cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, bydd lleoedd pellach ar gael yn agosach at yr amser

Mae'r Hwb ESR yn argymell defnyddio chwiliwr rhyngrwyd Google Chrome i gwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn ESR

# PRIF FANYLION CYSWLLT ECOD

| | | |
|---|---|---|
| Amelia Clark | Ymholiadau Arweinyddiaeth a Rheolaeth<br>Recriwtio yn Seiliedig ar Werthoedd ac Arfarnu<br>Hyfforddi | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47833<br>E-bost: Amelia.Clark@wales.nhs.uk |
| Carrie Bodman | Addysg Nyrsys ac Ymholiadau TNA<br>Cyllid Ymarfer Uwch<br>Cyllid Presgripsiynu Anfeddygol | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47835<br>E-bost: Carrie.Bodman@wales.nhs.uk |
| Chloe Thompson | Ymholiadau Cadw Lle ar y Cwrs<br>Ymholiadau Cyffredinol<br>Archebu Ystafelloedd<br>Sefydlu Corfforaethol | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47834<br>E-bost: CAV.ECOD@wales.nhs.uk |
| Chris Ramshaw | Ymholiadau Hyfforddiant Gorfodol/Statudol<br>Ymholiadau Cymhwysedd ESR | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47836<br>E-bost: Chris.Ramshaw@wales.nhs.uk |
| Ffion Jenkins | Pwynt Cyswllt ar gyfer NMPP | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47838<br>E-bost: ffion.jenkins2@wales.nhs.uk |
| Meg McNaughton | Ymholiadau Cadw Lle ar y Cwrs<br>Ymholiadau Cyffredinol<br>Archebu Ystafelloedd | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47460<br>E-bost: CAV.ECOD@wales.nhs.uk |
| Suzanne Gardner | Prentisiaethau<br>Ehangu Mynediad | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47460<br>E-bost: Suzanne.Gardner@wales.nhs.uk |
| ESR Hub | Ymholiadau am Fewngofnodi neu Gyfrinair | Rhif Ffôn: 029 20905400 |
| Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sydd â diddordeb mewn ymgymryd â hyfforddiant nyrsio; trafodwch gyda'ch rheolwr llinell a fydd yn eich cyfeirio at Nyrs Datblygu Ymarfer/Addysgwr Ymarfer eich cyfarwyddiaeth | | |
| Nicola Giles | Ymholiadau Addysg HCSW<br>Trefniadau Ymsefydlu HCSW | Rhif Ffôn: (029 21 8) 26924<br>E-bost: Nicola.Giles@wales.nhs.uk |
| Rob Ledsam | Cyswllt Cwrs ar gyfer Tystysgrif Addysg Uwch Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd | Rhif Ffôn: (029 21 8) 26932<br>E-bost: Robert.Ledsam@wales.nhs.uk |
| Violet Thomas | Datblygiad HCSW | Rhif Ffôn: (029 21 8) 25982<br>E-bost: Violet.Thomas@wales.nhs.uk |
| Practice Facilitator Hub | | Rhif Ffôn: UHW (029 21 8) 42053<br>UHL (029 21 8) 25595 |